Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales


# Bwletin y Farchnad HCC

Y Sioe Fawr 2019

Bydd y Bwletin hwn yn edrych ar y farchnad cig oen a chig eidion yn ystod chwe mis cyntaf 2019.

## CIG OEN

Ar y cyfan, mae prisiau ŵyn pwysau byw ar gyfer 2019 wedi dilyn y patrwm tymhorol disgwyliedig. Er bod y prisiau pwysau byw wedi bod yn is na’r flwyddyn flaenorol ers dechrau mis Chwefror, roedd y gostyngiad llai difrifol yn y pris yn ystod Mehefin/Gorffennaf yn golygu bod prisiau yn ystod ail wythnos mis Gorffennaf yn uwch nag oeddynt flwyddyn yn gynharach.




Wrth edrych ar hanner cyntaf 2019, roedd cyfanswm y defaid a laddwyd yn lladd-dai’r DU yn 6.7 miliwn, sef c 3.7% yn fwy nag yn yr un cyfnod y llynedd. Roedd nifer yr wˆyn dethol hefyd yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Lladdwyd 5.9 miliwn (+3.2%, neu 184,800 o wˆyn), sef 88% o ‘r holl ddefaid a laddwyd hyd yma eleni. Yn yr un modd, lladdwyd mwy o famogiaid a hyrddod difa (797,200, +7.4%) yn y DU na blwyddyn yn gynharach. Fel canlyniad i garcasau trymach ar gyfartaledd ar gyfer wˆyn dethol a mamogiaid a hyrddod difa, ynghyd â chynnydd yn y nifer a laddwyd yn ystod y cyfnod o 6 mis, roedd y cynnyrch cig oen a chig defaid yn 142,500 tunnell, sef 9.6% (neu 12,500 tunnell) yn uwch na blwyddyn yn gynharach.





Mae ffigurau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ar gyfer pum mis cyntaf 2019 yn dangos gostyngiad o 11.4% i 32,700 tunnell yng nghyfaint y cig defaid a fewnforiwyd i’r DU o’i gymharu â’r un cyfnod yn 2018. Mewnforiwyd 14.6% (neu 560 tunnell) yn llai o Awstralia a 14.3% (neu 3,700 tunnell) yn llai o Seland Newydd. Roedd y cig defaid a fewnforiwyd o’r ddwy wlad hon yn cyfrif am 78% o farchnad fewnforio cig defaid y DU hyd yma eleni. O’r prif wledydd allforio eraill, yn y mewnforion cig defaid i’r DU o Iwerddon yn unig y gwelwyd cynnydd, sef 34.7% yn fwy nag yn yr un cyfnod y llynedd, i gyrraedd cyfanswm o 4,200 tunnell.




Roedd allforion cig defaid y DU ar gyfer pum mis cyntaf y flwyddyn yn 37,600 tunnell, sef 21.5% yn fwy nag yn yr un cyfnod y llynedd. Cafwyd cynnydd sylweddol yn yr allforion i’r Almaen (3,190 tunnell yn fwy nag yn 2018). Ffrainc yw marchnad allforio cig defaid fwyaf y DU hyd yn hyn eleni (38.2% o’r farchnad), sef cynnydd o 14.8% yn y cyfaint yn ystod pum mis cyntaf 2019. Cynnydd o 29.2% yng nghyfaint y carcasau cyfan a allforiwyd oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd cyffredinol ym mhwysau’r allforion.

## CIG EIDION

Mae’r prisiau pwysau byw wedi tueddu i fod yn is nag oeddynt yn 2018 ers dechrau’r flwyddyn, ac wedi gostwng o dan y cyfartaledd pum-mlynedd yn ystod mis Mehefin. Mae adroddiadau’n awgrymu bod y galw am gig eidion manwerth yn dal i fod yn dawel, gyda ffigurau Kantar yn dangos gostyngiad o 3.1% o’r naill flwyddyn i’r llall yng nghyfaint y cig eidion a brynwyd gan ddefnyddwyr yn y 12 wythnos hyd at 19 Mai – darnau i’w rhostio oedd yn bennaf gyfrifol am y gostyngiad.





Yn ystod hanner cyntaf 2019, lladdwyd 996,600 o wartheg dethol, sef 0.5% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Mewn cyferbyniad, bu gostyngiad o 5,900 (neu 1.8%) i 318,500 yn nifer y buchod difa a theirw llawn dwf a laddwyd yn ystod y cyfnod o chwe mis. Roedd cyfanswm yr holl gig eidion a chig llo a gynhyrchwyd yn ystod hanner cyntaf 2019 yn 461,300 tunnell, sef 1.2% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd a 3.5% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2017.




Yn ystod pum mis cyntaf 2019, cafwyd gostyngiad o 11.3% i 104,200 tunnell yn y mewnforion cig eidion mewn cymhariaeth â’r cyfnod cyfatebol yn 2018, a chafwyd gostyngiad o 4.2% i 81,300 tunnell yn y mewnforion o Iwerddon. O’r prif wledydd allforio eraill, yn y mewnforion cig eidion i’r DU o’r Almaen y cafwyd y gostyngiad mwyaf - i lawr 41.8% (neu 1,600 tunnell), tra bod y cyfaint o Ffrainc wedi gostwng 950 tunnell. Y prif reswm am y gostyngiad cyffredinol mewn mewnforion oedd gostyngiad o 20.9% yng nghyfaint y cig eidion wedi’i rewi a fewnforiwyd; cafwyd gostyngiad hefyd, o 6.4% yn y mewnforion cig eidion ffres.





Cafwyd cynnydd o 7.4% i 51,700 tunnell yn allforion cig eidion y DU yn ystod pum mis cyntaf 2019 mewn cymhariaeth â’r cyfnod cyfatebol yn 2018. Y prif reswm am y cynnydd yw bod mwy o gig wedi ei anfon i Ffrainc (+ 28.6% neu 1,080 tunnell) ac i’r Iseldiroedd (+1.6%). Roedd y ddwy farchnad hon gyda’i gilydd yn gyfrifol am dros 30% o holl allforion cig eidion y DU yn ystod pum mis cyntaf 2019.





## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 184.3c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf a ddaeth i ben ar 13 Gorffennaf, sef 0.2c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, a 5.5c yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r prisiau pwysau byw wedi tueddu i fod yn is nag yn 2018 ers dechrau'r flwyddyn, ac mae'r pris ar hyn o bryd yn debyg (- 0.8c) i'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 185.1c/kg). Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Gorffennaf, gostyngodd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pob categori o wartheg dethol. Roedd y gostyngiad mwyaf, sef 1.4c o'r naill wythnos i'r llall i 311.0c/kg, ar gyfer teirw ifainc. Cafwyd gostyngiad o 1.3c i 322.4c/kg ar gyfer bustych, a gostyngiad o 1.0c i 325.8c/kg ar gyfer heffrod. Cafwyd cynnydd o'r naill wythnos i'r llall o 4c i 230.0c/kg. ym mhrisiau pwysau marw buchod difa.





Cyfanswm y gwartheg a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym is Mehefin 2019 oedd 210,100. Mae hyn yn 7.6% yn uwch nag yn y mis blaenorol, ac yn 0.4% (800 o wartheg) yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Yn ystod y mis, lladdwyd 0.2% yn llai o wartheg dethol nag ym mis Mehefin y llynedd, ond lladdwyd 2.4% yn fwy o fuchod a theirw llawn-dwf. Roedd cyfanswm y cynnyrch cig eidion a chig llo yn 2.1% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, yn dilyn cynnydd yn y trwybwn buchod a theirw llawn-dwf a chynnydd ym mhwysau cyfartalog carcasau gwartheg dethol (+5.6kg o'r naill flwyddyn i'r llall, i 357.9kg).





## DEFAID

Yn dilyn gostyngiad diweddar yn y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ym marchnadoedd da byw Cymru, yn ystod yr wythnos yn diweddu 13 Gorffennaf, dim ond gostyngiad bach, i 196.5c/kg), a gafwyd. Er bod hyn yn ostyngiad o 3.0c o'r naill wythnos i'r llall, mae'r pris ar hyn o bryd yn 6.8c yn uwch nag oedd yn yr un cyfnod y llynedd ac yn 3.1c yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 183.4c/kg). Dyma'r tro cyntaf i brisiau pwysau byw fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ers mis Chwefror.Roedd prisiau pwysau marw ym Mhrydain yn 433.5c/kg yn yr wythnos yn diweddu 13 Gorffennaf ac yn dal i fod yn is nag oeddynt flwyddyn yn gynharach (-28.5c), ond maent 5.6c yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 427.9c/kg).





Cafodd 1.0 miliwn o ddefaid eu lladd yn lladd-dai'r DU ym mis Mehefin, sef 9.7% yn llai nag ym mis Mai, ond 2.2% yn fwy nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. ŵyn dethol oedd bron 90% o'r holl drwybwn yn ystod y mis, a hyn oedd i gyfrif am y cynnydd o 3.4% o'r naill flwyddyn i'r llall. Cynhyrchwyd mwy o gig defaid ym mis Mehefin nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach, am fod mwy o ŵyn Tymor Newydd ar gael.




## MOCH

Roedd prisiau'r holl foch pwysau marw (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 153.3c/kg yn yr wythnos yn diweddu 29 Mehefin. Yn dilyn tuedd i gynyddu ers mis Ebrill, mae hyn yn 1.0c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Am y tro cyntaf eleni, mae'r pris ar hyn o bryd yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2018 (0.2c yn uwch). Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn £51.96 y mochyn yn yr wythnos yn diweddu 29 Mehefin, sef 6.0% yn is nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Yn yr un modd, roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg, sef £37.66 yr un, yn 2.2% yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r pris presennol ar gyfer perchyll yn £1.18 y mochyn yn uwch nag oedd yn yr wythnos flaenorol.




Roedd nifer yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn 842,000 ym mis Mehefin sef 10.0% yn is nag ym mis Mai ac 1.3% yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 823,800 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Mehefin, sef 9.9% yn llai nag yn y mis blaenorol ac 1.0% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Er i lai o foch gael eu lladd nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, cafwyd ychydig o gynnydd (+ 0.1%) yn y cynnyrch am fod y carcasau'n drymach - hychod a baeddod yn arbennig (4.7kg yn drymach).